**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2023 ac rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

26 Ebrill 2023

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (“Rheoliadau 2021”). Mae'r diwygiadau a bennir yn y Rheoliadau hyn ddim ond yn gymwys i ddaliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau (“PPN”).

2. Effaith y Rheoliadau yw estyn y ddarpariaeth drosiannol ar gyfer y terfyn 170kg/ha o ran nitrogen ar daenu tail da byw ar gyfer y daliad (“y terfyn 170kg”) a'r gofyniad cysylltiedig o ran cadw cofnodion, ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli mewn parth perygl nitradau (“PPN”) o 30 Ebrill 2023 tan 31 Hydref 2023.

3. Mae'r terfyn 170kg, a'r gofyniad cysylltiedig o ran cadw cofnodion, yn gymwys ar hyn o bryd i ddaliadau sydd eisoes mewn PPN, ac nid yw'r Rheoliadau yn newid hyn.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

4. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y daw’r offeryn hwn i rym llai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Rhaid i'r ddeddfwriaeth ddod i rym erbyn 29 Ebrill 2023 er mwyn sicrhau nad yw'r cyfnod trosiannol mewn perthynas â'r terfyn 170kg ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli mewn PPN yn dod i ben ac felly nad oes bwlch yn y ddarpariaeth drosiannol.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

5. Mae Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (p. 57) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn, ymhlith pethau eraill, atal a rheoli llygredd. Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 92 a 219(2)(d) i (f) o'r Ddeddf honno.

6. Trosglwyddodd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 92 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 i:

    a) Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran y rhannau hynny o Gymru sydd y tu allan i ddalgylchoedd afon Dyfrdwy, afon Gwy ac afon Hafren, a

b) o ran y rhannau hynny o Gymru sydd o fewn y dalgylchoedd hynny, mae swyddogaethau o dan adran 92 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol.

7. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru) yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

8. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol a deuant i rym ar 30 Ebrill 2023.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

9. Nod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yw mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi llygredd dŵr drwy weithgareddau amaethyddol ledled Cymru.

10. Diben y Rheoliadau hyn yw estyn y cyfnod trosiannol ar gyfer y terfyn 170kg a ragnodir gan reoliad 4 o Reoliadau 2021 a'r gofyniad cysylltiedig o ran cadw cofnodion yn rheoliad 36 o Reoliadau 2021 ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli mewn PPN o 30 Ebrill 2023 tan 31 Hydref 2023.

11. Effaith estyn y cyfnod trosiannol yw y bydd y cyfnodau adrodd ar gyfer y terfyn 170kg o dan Reoliadau 2021, ar gyfer meddiannydd daliad neu ran o ddaliad nad yw eisoes mewn PPN hefyd yn cael ei ohirio fel a ganlyn:

    a) bydd y cyfnod perthnasol o 12 mis at ddibenion y terfyn 170kg o dan reoliad 4 o Reoliadau 2021 o 31 Hydref tan 30 Hydref.
    b) bydd y dyddiad perthnasol erbyn pryd y dylid llunio cofnodion penodol a gwneud cyfrifiadau penodol ar gyfer y cyfnod blaenorol o 12 mis sy'n gorffen ar 30 Hydref o dan reoliad 36 o Reoliadau 2021 yn "cyn 28 Chwefror".

12. Bydd yr estyniad hwn yn galluogi gwaith i gyflwyno cynllun perthnasol i ganiatáu i fusnesau fferm weithio yn unol â therfyn blynyddol uwch o hyd at 250kg/ha o ran nitrogen ar gyfer y daliad, yn dibynnu ar anghenion y cnydau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill. Pe na bai'r darpariaethau trosiannol mewn perthynas â'r gofynion hyn yn cael eu hestyn, ni fyddai amser i gwblhau'r gwaith sydd ei angen i weithredu rheolaethau ar ddodi nitrogen, megis y rhai y bu'r Llywodraeth yn ymgynghori arnynt rhwng Tachwedd 2022 a Chwefror 2023.

## 5. Ymgynghori

13. Gan fod y Rheoliadau yn darparu diwygiad cyfyngedig sy'n estyn dyddiad gweithredu'r rheoliadau o sylwedd am gyfnod byr ac nad ydynt yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol.

    *Ymgynghoriad ffurfiol*

14. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar gynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu i alluogi busnesau fferm i weithio yn unol â therfyn blynyddol uwch o 250kg/ha o ran nitrogen ar gyfer y daliad, yn dibynnu ar anghenion y cnydau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill, am ddeuddeng wythnos o 25 Tachwedd 2022 tan 17 Chwefror 2023.

15. Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael yn:

*https://llyw.cymru/rheoli-maethynnau-rheolir-defnydd-cynaliadwy-o-dail-da-byw*

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## 6. Opsiynau:

16. Mae'r opsiynau sydd i'w hystyried yn ymwneud â dyddiad cael effaith y Rheoliadau. Mae tri opsiwn:

    i) Busnes fel arfer
    ii) Gohirio cyflwyno'r terfyn 170kg ar ddodi nitrogen i gael effaith o 31 Hydref 2023
    iii) Gohirio cyflwyno'r terfyn 170kg blynyddol i gael effaith o ryw ddyddiad arall

### Opsiwn i) Busnes fel arfer

17. O dan opsiwn i) busnes fel arfer, byddai'r Rheoliadau yn dod i rym o 30 Ebrill 2023. Ni fyddai hyn yn caniatáu amser i weithredu cynllun perthnasol i roi rhagor o amser i fusnesau fferm baratoi i weithio yn unol â therfyn is. Un o'r effeithiau a allai ddeillio o hyn fyddai busnesau fferm yn torri'r terfyn 170kg ar ddodi nitrogen – am fod tail dros ben ganddynt na fyddai modd iddynt ei ddefnyddio neu ei waredu fel arall.

18. Fodd bynnag, mae elfennau o'r Rheoliadau sydd eisoes mewn grym yn ei gwneud yn ofynnol i ffermydd asesu'r peryglon o lygredd cyn dodi unrhyw wrtaith nitrogen ar dir. Gwaherddir dodi gwrtaith nitrogen pan fo perygl sylweddol o lygredd. Yn ogystal, mae terfyn 250kg/ha ar daenu tail organig ar gyfer unrhyw gyfnod o 12 mis.

19. Effaith bosibl arall yw efallai y bydd busnesau fferm yn gorfod lleihau eu niferoedd da byw (er mwyn lleihau faint o dail maen nhw'n ei gynhyrchu). Gallai hyn yn ei dro leihau cynhyrchiant bwyd (fel llaeth) ac arwain naill ai at brisiau uwch neu alw heb ei ddiwallu. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn angenrheidiol pe bai Gweinidogion yn cyflwyno cynllun trwyddedu o fis Hydref 2023 hyd at 2025, sy'n galluogi busnesau fferm i ddodi lefel uwch o nitrogen.

**Opsiwn ii) – Gohirio cyflwyno'r terfyn 170kg / ha ar ddodi nitrogen i gael effaith o 31 Hydref 2023**

20. O dan opsiwn ii), os caiff y Rheoliadau eu diwygio fel y'i cynigir, fel y byddant yn dod i rym o 31 Hydref 2023, bydd hyn yn caniatáu amser i gynnal ymgynghoriad llawn ar gynigion ar gyfer cynllun trwyddedu a fyddai'n galluogi rhai busnesau fferm i weithio yn unol â therfyn blynyddol uwch o hyd at 250kg/ha o ran nitrogen ar gyfer y daliad, yn dibynnu ar anghenion y cnydau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill.

21. Yn ystod y cyfnod o chwe mis yn yr estyniad – o 1 Mai hyd at 31 Hydref – mae'n debygol y bydd llawer o gnydau'n tyfu ac y bydd angen mawr am faethynnau. Mae mesurau rheoli eisoes ar waith ar daenu tail y tu hwnt i anghenion y cnydau. Felly nid yw’n debygol y bydd gohirio gweithredu'r terfyn 170kg tan 31 Hydref yn arwain at gynnydd sylweddol mewn dodi nitrogen ar ddaliadau fferm.

**Opsiwn iii) – gohirio cyflwyno'r terfyn tan ddyddiad arall**

22. Opsiynau eraill fyddai diwygio'r Rheoliadau fel y byddent yn dod i rym naill ai cyn y dyddiad a gynigir (rhwng 1 Mai 2023 a 31 Hydref 2023) neu ar ôl y dyddiad hwnnw (ar ôl 31 Hydref 2023).

23. Pe bai'r Rheoliadau yn dod i rym cyn 31 Hydref 2023, ni fyddai digon o amser i ddatblygu a gweithredu'r cynllun trwyddedu arfaethedig yn briodol ac i fusnesau fferm baratoi ar gyfer cyflwyno cynllun o'r fath.

24. Pe bai'r Rheoliadau yn dod i rym ar ôl 31 Hydref 2023, mae perygl pan ddaw'r Rheoliadau i rym, y byddant yn dodi rhai busnesau fferm o dan anfantais yn dibynnu ar y pwynt y maent wedi ei gyrraedd o ran cyflawni eu cynllun rheoli maethynnau ar gyfer y flwyddyn. Gallai hefyd gynyddu'r risg o lygredd gan y gallai gwrtaith nitrogen gael ei ddodi yn anaddas yn ystod misoedd gwlypach y gaeaf pan fo twf cnydau'n gyfyngedig.

**Yr opsiwn a ffefrir**

25. O'r tri opsiwn hyn, yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn ii) - estyn dyddiad gweithredu'r terfyn 170kg/ha ar ddodi nitrogen tan 31 Hydref 2023. Mae’r cyfnod o chwe mis a gynigir ar gyfer gohirio’r dyddiad gweithredu yn troedio llwybr canol rhwng

- caniatáu digon o amser i gynnal ymgynghoriad ac i Weinidogion wneud penderfyniadau ynghylch cynllun perthnasol ar gyfer terfyn uwch ar ddodi nitrogen (o 31 Hydref 2023);
- ond eto peidio â gohirio cyflwyno'r terfyn 170kg/ha tan bwynt sy'n llawer diweddarach na'r pwynt hwnnw yn y cylchred cnydau blynyddol pan fydd cnydau wedi cael eu cynaeafu neu fe fydd tywydd oerach wedi eu harafu neu eu hatal rhag tyfu a bydd niferoedd da byw yn cael eu lleihau cyn y gaeaf - ac felly byddai ffermydd fel arfer yn rhoi'r gorau i daenu tail.

## 7. Costau a manteision

26. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau na manteision amgylcheddol yn deillio o'r ddeddfwriaeth.

27. Effaith Opsiwn ii) ar fusnesau fferm fydd darparu eglurder bod ganddynt ragor o amser i gynllunio ar gyfer y terfyn 170kg ac i drosglwyddo iddo. Os caiff cynllun trwyddedu ei gyflwyno yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd gohirio cyflwyno'r terfyn 170kg yn y modd hwn yn sicrhau bod y rheini sy'n gymwys am y cynllun trwyddedu ac sydd am wneud cais iddo yn gallu trosglwyddo'n ddidrafferth.

28. Terfyn blynyddol yw'r terfyn 170kg ar ddodi nitrogen, felly prin byddai'r effaith, os bydd effaith o gwbl, ar ddodi tail da byw ar dir yn ystod y gaeaf neu'r gwanwyn yn 2023/2024.

29. Byddai unrhyw gostau neu fanteision amgylcheddol yn ystod 2023 yn cael eu negyddu gan y costau/manteision sy'n gysylltiedig â newidiadau i arferion yn ystod gaeaf hwyr a gwanwyn 2024.

30. Cynhelir asesiad effaith rheoleiddiol arall mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer terfyn blynyddol uwch (hyd at 250kg) ar ddodi nitrogen, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Defnyddir yr asesiad hwnnw wrth wneud penderfyniadau, pan ddaw'r ymgynghoriad i ben ac ar ôl dadansoddi ac ystyried yr ymatebion, ynghylch p'un a ddylid cyflwyno cynllun o'r fath ai peidio.

31. O dan Opsiwn i), byddai angen i ffermydd gydymffurfio â'r terfyn blynyddol o 170kg/ha o 30 Ebrill 2023, ond yna gallent drosglwyddo i'r terfyn uwch os a phan fydd cynllun perthnasol yn cael ei gyflwyno ac maen nhw'n gymwys. Gan mai terfyn blynyddol yw’r terfyn 170kg, ni fyddai angen i'r rhan fwyaf o ffermydd newid eu harferion yn y cyfamser er mwyn cydymffurfio â'r terfyn 170kg/ha, ac felly ni ragwelir gwahaniaeth yn y costau/manteision o'i gymharu ag Opsiwn ii). Fodd bynnag, byddai ansicrwydd i ffermydd o ran os neu pan fydd cynllun perthnasol yn cael ei gyflwyno, a byddai gwaith monitro a chofnodi dodi nitrogen yn gymhleth gyda therfynau gwahanol yn berthnasol ar wahanol adegau yn y flwyddyn. Os na fydd cynllun perthnasol yn cael ei gyflwyno, byddai hyn yn cael yr effaith fel y *status quo*. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn creu

ansicrwydd i ffermydd ynghylch a fyddai angen iddynt gymryd unrhyw gamau yn y cyfamser.

32. O dan Opsiwn iii), ni fyddai gohirio’r dyddiad gweithredu am gyfnod llai yn rhoi digon o amser i sefydlu unrhyw gynllun trwyddedu a byddai'r costau/manteision yn debyg i Opsiwn i). Byddai hyn hefyd yn creu ansicrwydd i ffermydd ynghylch a fyddai angen iddynt gymryd unrhyw gamau yn y cyfamser.

33. Pe bai'r dyddiad gweithredu yn cael ei ohirio am gyfnod estynedig, byddai'r effaith yn debyg i Opsiwn ii), oni bai bod y dyddiad yn cael ei ohirio am gyfnod mor sylweddol fel y byddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn swm y tail da byw a ddodir ar dir yn yr hydref, a allai arwain at golli rhagor o faethynnau. Fodd bynnag, ni fyddai gohirio'r dyddiad gweithredu am gyfnod estynedig gan arwain at yr effaith hon yn dderbyniol, ac felly byddai costau/manteision gohirio'r dyddiad gweithredu am gyfnod estynedig yn debyg i Opsiwn ii).

34. Mae effaith pob un o'r tri opsiwn ar yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar ffermydd er mwyn cynllunio yn debyg.

## 8. Asesiad o’r Gystadleuaeth

35. Defnyddiwyd prawf hidlo’r gystadleuaeth. Ni ddisgwylir y bydd y Rheoliadau yn effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru na gallu busnesau Cymru i gystadlu.